

Cofnodion cyfarfod 4/4/2019

Presennol: Y Maer Sharon Evans, Y Dirprwy Faer Eifion Roberts, Susan Davies, Dilys Evans, Eluned Jones, Ivora Jones, Alun Price, Edith Roberts, Lis Puw (*Clerc*).

1. **Croesawyd pawb gan y Maer** a derbyniwyd ymddiheuriadau Rhys Evans, Tony Parry, John Caradog Williams, Cynghorydd Dilwyn Morgan
2. **Buddiant:** Nid oedd datganiadau o fuddiant.
3. **Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod 7/3/19.
4. **Materion y Clerc:** Derbyniwyd gwybodaeth fod y cymorth technegol ar gyfer iPad ac yn y blaen yn parhau yng Nghanolfan Henblas bob dydd Mercher o 10.00 y bore. Hefyd mae swyddog o Gwaith Gwynedd i helpu gydag ymgeisio am swydd neu hyfforddiant ar fore Mercher.

Diolchwyd i Gyngor Cymuned Llandderfel am yr ymateb i bryderon am oryrru yn ardal Y Bryn a mynegwyd parodrwydd i gyd-weithio ar y mater.

5. **Cyngor Gwynedd:** Derbyniwyd adroddiad ysgrifenedig cynhwysfawr oddi wrth Cynghorydd Gwynedd, Dilwyn Morgan.
6. **Is-bwyllgor y Nadolig:** Ail-drefnwyd cyfarfod yr is-bwyllgor hwn.
7. **Materion Cynllunio:** Nid oedd ceisiadau wedi dod i law.
8. **Materion Cyllid:** Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa gyfredol a chytunwyd i wneud taliadau'r mis.
9. **Gohebiaeth:** Ystyried gohebiaeth:

- i. Ymddiriedolaeth Carnegie: cytunwyd i ddefnyddio'r cyflwyniad a baratowyd gan Alun Price ar gyfer y wefan wrth ymateb i'r cais am wybodaeth am Y Bala ar y wefan Deall Lleoedd Cymru.
- ii. Adran Argyfwng Fasciolar Ysbyty Gwynedd: cytunwyd i gefnogi'r gwrthwynebiad i gau'r Adran hon.
- iii. BDO: mae'r ffurflenni wedi eu derbyn ar gyfer yr Awdit Blyneddol.
- iv. Budd-dal Credyd Cynhwysol: mae'r newidiadau i ddulliau talu budd-daliadau yn digwydd yng Ngwynedd yn fuan a chytunwyd i arddangos poster am hyn ar hysbysfwrdd y Cyngor.
- v. Rhaglen waith Cyngor Gwynedd: bydd colofnau golau stryd yn cael eu newid yn yr Ystâd Ddiwydiannol ym mis Ebrill.
- vi. Nodwyd derbyn llythyr oddi wrth y British Weights and Measures Association.
- vii. Cais am wybodaeth am y Tro Trefol: cytunodd Alun Price i gysylltu gyda'r Cyfnod am hyn.

10. **Partneriaeth Penllyn:** Derbyniwyd adroddiad y cynrychiolwyr am waith datblygol yng Nghanolfan Henblas.
11. **Asedau'r Cyngor:** Derbyn adroddiad Carol Rowlands ei bod yn fodlon ar eu cyflwr. Diolchwyd iddi eto am ei gwaith a chytunodd y Maer i gysylltu gyda Chyfoeth Naturiol Cymru am y meinciau ar hyd glan afon Tryweryn.
12. **Materion lleol y Cynghorwyr Tref:** Cytunwyd i gysylltu gydag Asiantaeth yr Amgylchfyd i ofyn am gyflwyniad ar fesurau diogelwch pe byddai llifogydd yn bygwth y dref.

Amser gorffen: 8.00pm